Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Rheolwr Datblygu Sefydliadol

## Adran Hyfforddi a Datblygu

**Pecyn Gwybodaeth Recriwtio**

# Contents

Welcome from Helen MacArthur, Assistant Chief Fire Officer . . 3

Who we are . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 4

North Wales; A Place To Live, Work And Visit . . . . . . . . . . . . 6

The Role . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 7

What we can offer you . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8

Job Description . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9

Person Specification . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 13

Welsh Language Skills . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 15

Recruitment Timeline . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 16

How to Apply . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 16



# Croeso gan Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, maent yn tueddu i ddychmygu diffoddwyr tân yn ymateb i alwadau brys, ond mae ein cyrhaeddiad a'n heffaith yn mynd ymhell y tu hwnt i'r rheng flaen. Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn dibynnu ar arbenigedd gweithwyr proffesiynol ymroddedig mewn ystod eang o rolau er mwyn gwneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Ydych chi'n chwilio am gyfle arweinyddiaeth sy'n helpu i lunio dyfodol ein gweithlu, ein diwylliant a'n gwerthoedd? Mae'r rôl hon fel Rheolwr Datblygu Sefydliadol wrth wraidd ein hymdrechion i adeiladu Gwasanaeth cynhwysol, gwydn a pherfformiad uchel. Byddwch yn gweithio ar draws adrannau ac ochr yn ochr ag uwch arweinwyr i ysgogi newid, hyrwyddo lles, a datblygu talent ar draws y sefydliad.

Achub bywydau a lleihau risg yw ein blaenoriaeth, ond mae lles a datblygiad ein staff yn ganolog i'r llwyddiant hwnnw. Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u grymuso i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae ein gwerthoedd craidd yn diffinio pwy ydym ni a sut rydym yn gweithio. Rydym yn chwilio am rywun sy'n rhannu'r gwerthoedd hyn ac sy'n barod i gael effaith barhaol.

Mae'r pecyn gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr hwn yn rhoi sylfaen ar gyfer deall y rôl a'n Gwasanaeth, ond rydym bob amser yn hapus i roi mwy o ddealltwriaeth trwy drafodaeth anffurfiol i helpu i lywio eich penderfyniad.



# Pwy Ydym Ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy’n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy’n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni’n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy’n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o’n gwaith mewn rôl gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni’n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy’n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny’n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio’n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.



# North Wales;
# A Place To Live, Work And Visit



O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymru'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddydd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.

# Y Rôl



Ydych chi'n angerddol am ysgogi arloesedd mewn gwasanaeth cyhoeddus trwy ddysgu a datblygu sefydliadol? Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn chwilio am Reolwr Datblygu Sefydliadol deinamig i arwain mentrau strategol sy'n adeiladu diwylliant perfformiad uchel, cynhwysol ac sy'n cael ei ysgogi gan werthoedd.

Wrth i ni wynebu heriau newydd ac addasu i anghenion newidiol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ein pobl, cryfhau ein diwylliant, ac adeiladu gweithlu sy'n gynhwysol, gwydn ac yn barod ar gyfer y dyfodol.

Fel ein Rheolwr Datblygu Sefydliadol, byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth drawsnewid ein gweithlu a'n galluoedd arweinyddiaeth. Gan adrodd i'r Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu, mae hon yn rôl arweinyddiaeth hanfodol lle byddwch yn llunio ac yn cyflwyno strategaethau sy'n ysgogi datblygiad diwylliannol, gwella perfformiad, a chefnogi lles a thwf ein pobl. Gan weithio'n agos gydag uwch arweinwyr a rhanddeiliaid ar draws y Gwasanaeth, byddwch yn arwain mentrau allweddol ynghylch ymgysylltu â gweithwyr, datblygu arweinyddiaeth, llwybrau olyniaeth, a thrawsnewid y gweithlu.

Byddwch hefyd yn cefnogi gweithredu ein strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI), gan helpu i greu gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod wedi'u grymuso, eu cefnogi ac yn gallu ffynnu.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- Arwain datblygu a gweithredu strategaeth Datblygu Sefydliadol y Gwasanaeth.
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) trwy fentrau effeithiol.
- Ysgogi rhaglenni ymgysylltu a diwylliant sy'n cefnogi lles a datblygiad staff.
- Arwain mentrau rheoli talent a datblygu arweinyddiaeth.
- Gweithredu fel arweinydd newid er mwyn cefnogi trawsnewid sefydliadol.
- Cydweithio ag uwch arweinwyr a thimau rheng flaen i ymgorffori arfer gorau Datblygiad Sefydliadol.
- Rheoli a datblygu tîm Datblygu Sefydliadol sy'n perfformio'n dda, gan feithrin arloesedd a rhagoriaeth.

# Beth allwn gynnig i chi

## Tâl

Gradd GTAGC 11


Cyflog: Cychwyn ar £49,764 gan godi i £52,805

## Oriau gwaith

Byddwch yn gweithio 37 awr yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener ond rydym yn cynnig cryn dipyn o hyblygrwydd a cheisiwn gefnogi staff i gydbwyso eu bywyd gwaith a chartref. Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno polisi gweithio hyblyg i hyrwyddo gweithio rhithiol ac yn y cartref lle bo'n ymarferol.

## Manteision cyflogaeth

- Hawl am Wyliau Blynyddol hael, yn cychwyn ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal a gwyliau cenedlaethol
- Cynllun amser Fflecsi sy'n caniatau i staff weithio'n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasnaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, yn cynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i ampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.



# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Rheolwr Datblygu Sefydiadol |
| **Adran** | Adran Hyfforddi a Datblygu |
| **Yn Atebol i** | Pennaeth Hyfforddi a Datblygu |
| **Lleoliad** | Y Rhyl |

## Pwrpas y Swydd yn Gyffredinol

Bydd y Rheolwr Datblygu Sefydliadol yn cefnogi datblygiad strategol a gweithrediad mentrau sy’n meithrin diwylliant perfformiad uchel, cynhwysol ac sy’n cael ei ysgogi gan werthoedd ar draws y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae’r rôl hon yn allweddol wrth lunio gweithlu’r dyfodol, gwella gallu arweinyddiaeth, ac ymgorffori gwelliant ac arloesedd parhaus ar draws pob lefel o’r sefydliad. Mae’r rôl hon yn ganolog i adeiladu Gwasanaeth Tân ac Achub modern, cynhwysol a pherfformiad uchel sy’n adlewyrchu’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu.

## Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Arwain datblygiad a gweithrediad y strategaethau Dysgu a Datblygu Sefydliadol, yn unol ag amcanion strategol, polisi a fframweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y Gwasanaeth.
2. Cefnogi strategaethau cynllunio, recriwtio a chadw gweithlu strategol er mwyn sicrhau gweithlu gwydn ac amrywiol.
3. Ysgogi newid diwylliannol, datblygu arweinyddiaeth, a mentrau gwella parhaus er mwyn gwella effeithiolrwydd sefydliadol.
4. Meithrin cysylltiadau cadarnhaol â gweithwyr, gan weithio ar y cyd ag undebau llafur a rhwydweithiau staff er mwyn hyrwyddo gweithle cefnogol a chynhwysol.
5. Sicrhau cyflwyno rhaglenni hyfforddi a datblygu o ansawdd uchel sy’n diwallu anghenion gweithredol ac arweinyddiaeth.

6. Datblygu a gweithredu’r strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) ar gyfer y Gwasanaeth.
7. Hyrwyddo EDI ar draws y Gwasanaeth, gan ymgorffori arferion cynhwysol a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a safonau perthnasol.
8. Hyrwyddo lles a pherfformiad gweithwyr trwy bolisïau rhagweithiol, gwasanaethau cymorth, a mentrau ymgysylltu.
9. Sicrhau bod polisïau Datblygu Sefydliadol yn gyfredol, yn cydymffurfio’n gyfreithiol, ac yn cyd-fynd ag arfer gorau a safonau’r sector cyhoeddus.
10. Cefnogi rhaglenni trawsnewid diwylliannol, gan sicrhau eu bod yn unol â gwerthoedd craidd, ymddygiadau disgwyliedig, ac ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth.
11. Cynllunio a gweithredu fframweithiau datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth er mwyn adeiladu gallu a gwydnwch ar draws y Gwasanaeth.
12. Sefydlu prosesau rheoli talent cadarn a chynllunio olyniaeth er mwyn sicrhau gweithlu cynaliadwy a medrus.
13. Ysgogi mentrau i wella effeithiolrwydd sefydliadol, gan ddefnyddio data ac adborth er mwyn llywio gwelliant parhaus.
14. Mesur, gwerthuso ac adrodd ar effeithiolrwydd datblygu sefydliadol, gan fod yn atebol am ddangosyddion perfformiad allweddol, metrigau effaith, a nodi dysgu ar draws rhaglenni a mentrau.
15. Sefydlu a chynnal rhwydweithiau a phartneriaethau allanol dylanwadol, meincnodi gyda Gwasanaethau Tân ac Achub, Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, a sectorau eraill er mwyn dod ag arloesedd ac arferion gorau i’r sefydliad.
16. Meithrin perthnasoedd mewnol â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, yr Uwch Dîm Arweinyddol, Adnoddau Dynol, Cyllid, ymateb brys a hyfforddiant gweithredol.
17. Yn gyfrifol am ragweld a monitro cyllideb adran ddatganoledig ac ar gyfer cymeradwyo pryniannau.

## Cyfrifoldeb Goruchwylio

Rheoli llinell tîm o reolwyr canol (4) sy’n gyfrifol am ddatblygu sefydliadol, iechyd a lles ac EDI.

## Cyfrifoldeb Ariannol

Hyd at £80,000 – Yn cyfrannu at gynllunio, cymeradwyo a monitro gwariant adrannau. Wedi’i awdurdodi i gychwyn a chymeradwyo gorchmynion sy’n gysylltiedig ag anghenion yr adran o fewn y gyllideb ddirprwyedig.

## Cysylltiadau y tu Allan i’w Adran ei Hun

Mewnol: Adrannau o fewn y Gwasanaeth, ac uwch reolwyr a’r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.

Allanol: Contractwyr, cyflenwyr, sefydliadau partner, Pwyllgorau a Grwpiau Cymru Gyfan, gwasanaethau tân ac achub eraill, Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.

## Gofynion Iaith

Cymraeg lefel 2

## Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

DBS Safonnol

## Arall

Cyfrifoldeb holl staff yw diogelu, a disgwylir i bawb fod yn wyliadwrus ac yn rhagweithiol wrth sicrhau diogelwch a lles eraill.

# Gofynion Person

## Cymwysterau / Gallu / Profiad

| |
|---|
| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| Profiad profedig mewn uwch rôl arwain Datblygu Sefydliadol neu Adnoddau Dynol mewn amgylchedd mawr yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus. |
| Hanes cryf o arwain newid diwylliannol a thrawsnewid sefydliadol. |
| Arbenigedd mewn datblygu arweinyddiaeth, rheoli talent, ac ymgysylltu â gweithwyr. |
| Cymhwyster Dysgu a Datblygu (Gradd neu CIPD lefel 7) |
| Cymhwyster Rheoli Lefel 5 neu uwch. |
| Profiad o reoli cyllideb ddatganoledig. |
| Profiad o reoli newid a strategaethau gwella prosesau parhaus. |
| Ymwybyddiaeth o'r protocolau sy'n ofynnol ar gyfer delio â nodweddion gwarchodedig a gwmpesir gan Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb. |
| Y gallu i weithio'n strategol, gan gyfrannu at gyflawni amcanion sefydliadol ac adrannol yn llwyddiannus. |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| Cymhwyster Hyfforddi, Asesydd a Sicrhau Ansawdd (Lefel 3 neu uwch) |
| Gwybodaeth am gyfraith cyflogaeth y DU, deddfwriaeth cydraddoldeb, llywodraethiant y sector cyhoeddus a gofynion statudol. |
| Gwybodaeth am fframweithiau'r sector cyhoeddus a phrosesau caffael. |
| Profiad mewn caffael a defnyddio systemau rheoli dysgu. |

## Sgiliau

| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
|---|
| Sgiliau rhyngbersonol a dylanwadu rhagorol, gyda'r gallu i feithrin ymddiriedaeth a hygrededd ar bob lefel. |
| Meddyliwr strategol gyda sgiliau dadansoddol a datrys problemau cryf. |
| Hunan-ysgogol ac ymrwymedig i hunan-ddatblygiad a datblygiad aelodau'r tîm. |
| Sgiliau arwain a rheoli tîm cryf gyda thystiolaeth o gyflawni canlyniadau. |
| Datblygu a gweithredu rhaglenni datblygu, cynlluniau hyfforddi a chynlluniau busnes er mwyn cyflawni effeithiolrwydd sefydliadol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys atebion cyfunol. |
| Sgiliau trefnu rhagorol gyda'r gallu i weithio dan bwysau a chwrdd â therfynau amser. |
| Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig effeithiol. |
| Trwydded Yrru Lawn |
| Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg – Lefel 2 (Mae gan ymgeiswyr llwyddiannus nad ydynt yn siarad Cymraeg ddwy flynedd i gyrraedd lefel 2). |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy’n bodloni’r holl feini prawf hanfodol |
| Hyblygrwydd i weithio y tu allan i oriau swyddfa arferol yn achlysurol fel sy'n ofynnol gan derfynau amser prosiectau. |
| Y gallu i weithio ar y cyd mewn amgylchedd traws-swyddogaethol, amlddisgyblaethol |

*Evidence of qualifications will be requested and verified prior to confirmation of appointment

Please Note: In order to be shortlisted for this post you will need to demonstrate that you meet all the essential criteria.

# Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

**Lefel 2**

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 2 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| Maes Sgil | Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | • Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>• Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>• Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>• Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |
| **Darllen** | • Ddeall gwybodaeth ffeithiol ac arferol a chynnwys gwybodaeth anarferol ar faterion ymwneud â'ch maes gwaith, e.e. mewn llythyrau safonol, pamffledi. |
| **Ysgrifennu** | • Ysgrifennu nodiadau syml, cofnodi gwybodaeth syml ar ystod eithaf cyfyng o faterion yn ymwneud â'ch profiadau personol neu o fewn eich maes gwaith. |



# Llinell Amser Recriwtio

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 12:00 Dydd Mawrth 05/08/2025 |

# Sut i ymgeisio

I wneud cais am y swydd hon, rhaid i bob ymgeisydd lenwi ein ffurflen gais. Mae'r ffurflen gais i'w chael ar dudalen Swyddi Gwag presennol ein gwefan. Dylid cyflwyno ffurflenni wedi'u llenwi drwy e-bost at recruitment@northwalesfire.llyw.cymru

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth yma fel eich bod yn deall y gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol sydd ym manyleb y person er mwyn cyrraedd y rhestr fer yn y cam nesaf. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech chi i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Lee Bourne, Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu ar 01745 352 798 neu lee.bourne@tangogleddcymru.llyw.cymru.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae apwyntiadau'n amodol ar wiriad Hawl i Weithio dilys, geirdaon boddhaol ac yn cynnal gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwch yn ymwybodol y bydd y gwiriad hwn yn canfod unrhyw euogfarnau neu rybuddion sydd wedi darfod a heb ddarfod. Cyn i ni gadarnhau eich apwyntiad, byddwch hefyd yn cynnal Prawf Cyffuriau ac Alcohol.